## Cyflwyniad

Mae’r pecyn hwn yn cyflwyno gwybodaeth am Sinfonia Cymru, i’ch helpu i benderfynu p’un ai i ymgeisio am y rôl Cynorthwy-ydd Marchnata ai peidio. Gallwch ddod o hyd i wybodaeth fwy cyffredinol ar ein gwefan, ein sianeli cyfryngau cymdeithasol a’n sianel YouTube.

Rydym yn croesawu ceisiadau gan ymgeiswyr o bob cefndir, ac yn benodol felly y rhai sydd wedi eu tangynrychioli yn sector y celfyddydau a diwylliant. Mae fersiwn print bras o’r pecyn recriwtio hwn ar gael; os dymunwch ei dderbyn mewn fformat hygyrch arall, mae croeso i chi gysylltu â ni ar caroline@sinfonia.cymru.

## Am Sinfonia Cymru

Mae lle unigryw i Sinfonia Cymru yn y sector cerddoriaeth. Rydym yn gerddorfa ‘dan 30’, sydd wedi ymrwymo i gefnogi camau cyntaf gyrfaoedd cerddorion proffesiynol ifanc, rhagorol. Drwy wneud hyn, rydym yn darparu profiadau cerddorol o ansawdd eithriadol i bobl sy’n byw yng Nghymru a thu hwnt.

Rydyn ni’n hoffi herio’r status quo. Ambell dro rydyn ni’n gerddorfa yn yr ystyr draddodiadol, yn amrywio mewn maint o ensemble llinynnol i gerddorfa symffoni lawn; ar adegau eraill rydyn ni’n gweithio gyda grwpiau llai o chwaraewyr i gyflwyno perfformiadau agos-atoch mewn nifer o arddulliau gwahanol. Canlyniad hyn yw ystod o weithiau sy’n cynnwys rhaglenni cerddorfa siambr ac ensemblau llinynnol, datganiadau cerddoriaeth siambr, cerddoriaeth gyfoes ac arloesol, prosiectau traws-genre, a phrosiectau gyda, ac ar gyfer, ysgolion. Mewn rhai digwyddiadau rydym yn arbrofi gyda fformatau cyngerdd a lleoliadau nad ydynt yn draddodiadol.

Rydyn ni’n gweithio’n agored ac yn gydweithredol gyda’n cerddorion, gan roi cyfleoedd iddynt archwilio eu creadigrwydd, ymestyn eu dylanwadau cerddorol, a chyfrannu eu syniadau. Gwyddom o’r adborth a dderbyniwn fod y dull hwn yn cael ei werthfawrogi gan y chwaraewyr gan nad yw’n rhywbeth maent wedi arfer ag e mewn cerddorfeydd sy’n cael eu rheoli mewn modd mwy traddodiadol.

Rydym yn hynod ddiolchgar am y nawdd a dderbyniwn gan ein prif randdeiliad, sef Cyngor Celfyddydau Cymru ar ran Llywodraeth Cymru; heb hyn, ni fyddai modd i ni weithredu. Mae’r buddsoddiad hwn o arian cyhoeddus – ynghyd â chymorth gwerthfawr pellach o Ymddiriedolaethau preifat ac unigolion – yn ein galluogi i chwarae ein rhan i sicrhau dyfodol disglair i gerddoriaeth glasurol yng Nghymru.

**Swydd-ddisgrifiad**

Y tîm

Bydd y Cynorthwy-ydd Marchnata yn gweithio'n agos gyda Heulwen Davies, ein Hymgynghorydd Marchnata, gan weithredu drwy ei chwmni Llais Cymru. Aelodau eraill y tîm yw: Caroline Tress, Prif Weithredwr; Tammy Daly, Rheolwr Cyffredinol; Joseph Evans, Rheolwr Cyngherddau a Phrosiectau; Becky Mercer, Cydlynydd Cynulleidfaoedd a Chymunedau, a Simmy Singh, Cysylltai Creadigol.

Prif bwrpas y swydd

Gweithio gyda'r Ymgynghorydd Marchnata i weithredu cynlluniau marchnata gyda'r nod o gyflawni'r cynulleidfaoedd gorau posibl i'n perfformiadau. Adeiladu ymwybyddiaeth o Sinfonia Cymru a'n gwaith drwy gyfrwng marchnata cyffredinol, yn cynnwys y cyfryngau cymdeithasol, y wefan a'r wasg. Byddai'r gallu i siarad ac ysgrifennu Cymraeg yn ddefnyddiol ar gyfer y swydd hon, ond nid yw'n gwbl angenrheidiol.

Prif ddyletswyddau

Bydd y Swyddog Marchnata a Gweinyddu'n darparu cymorth mewn nifer o feysydd gwahanol, yn cynnwys:

Cyfryngau Cymdeithasol
- Llwytho cynnwys i Instagram, Facebook a Twitter, a chynnal a chadw'r sianel YouTube
- Creu peth cynnwys, ynghyd â gwneud rhywfaint o waith golygu fideo a sain

Gwefan
- Llwytho a diweddaru cynnwys
- Rhoi perfformiadau ar werth
- Creu postiadau
- Cadw'r safle'n gyfoes drwy adnewyddu'r cynnwys

Print a Marchnata Traddodiadol
- Helpu i drefnu deunyddiau print, yn cynnwys paratoi copi, prawfddarllen, cadw mewn cysylltiad â'r dylunydd
- Archebu print
- Trefnu i ddosbarthu taflenni, yn cynnwys ymchwilio i farchnadoedd neilltuol
- Cysylltu â lleoliadau eraill i gytuno ar farchnata dwyochrog – e.e. taflenni wrth adael, neu slipiau rhaglen

Y Wasg
- Hyrwyddo perfformiadau mewn rhestrau lleol ac yn y wasg, drwy anfon datganiadau i'r wasg, lluniau, a phytiau i'r cyfryngau

Rhestr bostio
- Cadw'r rhestr bostio'n gyfoes, ac anfon negeseuon misol trwy gyfrwng Mailchimp
- Helpu i gynyddu nifer y tanysgrifwyr

**Datblygu cynulleidfa**

- Helpu i dargedu grwpiau penodol i fynychu ein perfformiadau ar lefel leol, yn cynwys gweithio gyda phartneriaid

**Gwerthu tocynnau**

- Pan fo galw am hynny, trefnu gwerthiant ar-lein drwy Ticket Source neu wasanaeth tebyg
- Monitro gwerthiant tocynnau'n wythnosol trwy gasglu data o leoliadau

**Llyfrgell Cyfryngau**

- Cynnal a chadw llyfrgell ddigidol o asedau cyfryngol, yn cynnwys ffotograffau, deunyddiau sain a fideo, a logos

**Ymchwil a chasglu data**

- Gwneud ymchwil ar gynulleidfaoedd, a mathau eraill o ymchwil, a choladu'r ymatebion
- Cynnal bas data syml o ddata ynghylch rhaglenni/ cynulleidfaoedd / mynychwyr ar gyfer defnydd yn y dyfodol
- Alldynnu data am werthiant, perfformiad a chyfryngau cymdeithasol ar gyfer arolwg Cyngor Celfyddydau Cymru ddwywaith y flwyddyn
- Cynnal archif o ddeunyddiau print ar gyfer pob perfformiad a phrosiect

**Rhaglenni**

- Helpu i gynhyrchu rhaglenni cyngerdd, gan weithio gyda'r Ymgynghorydd Marchnata a'r Rheolwr Cyngherddau a Phrosiectau

**Ymarferion a pherfformiadau**

- Helpu i gefnogi'r tîm gyda dyletswyddau blaen tŷ, e.e. croesawu aelodau o'r cyhoedd, dosbarthu rhaglenni a derbyn rhoddion
- Helpu gydag unrhyw ddigwyddiadau megis derbyniad diodydd ar gyfer y wasg a derbyniadau ar gyfer gwahoddedigion
- Dogfennu digwyddiadau trwy dynnu lluniau a fideos sylfaenol ar gyfer eu rhannu ar y cyfrygau cymdeithasol

**Cyfieithu**

- Gwneud peth gwaith cyfieithu, ond hefyd gweithio gyda gwasanaeth cyfieithu ar gyfer eitemau mwy o faint

**Tasgau gweinyddol eraill**

- Yn ogystal â'r gwaith marchnata, mae'r rôl hefyd yn darparu cefnogaeth ar gyfer aelodau eraill y tîm ac yn helpu i sicrhau bod ochr weinyddol y sefydliad yn rhedeg yn rhwydd. Mae hyn yn cynnwys ystod o dasgau gweinyddol, megis: ymchwilio i/trefnu ystafelloedd i gynnal cyfarfodydd, rheoli tanysgrifiadau, trefnu gwestai a gwneud trefniadau teithio ar gyfer artistiaid, a chynnal a chadw prosesau gweinyddol.

**Manyleb Person**

Rydym yn croesawu ceisiadau gan unrhyw un, beth bynnag fo'u cefndir, ac yn enwedig y rhai hynny a dangynrychiolir yn sector y celfyddydau. Bydd yr ymgeisydd delfrydol yn meddu ar rai, neu'r cyfan, o'r nodweddion, y sgiliau neu'r profiad isod:

| Profiad, cymwyseddau a sgiliau | Hanfodol | Dymunol |
|---|---|---|
| Addysg a Chymwysterau | | • Gradd neu gyfwerth mewn Marchnata a/neu Gerddoriaeth |
| Profiad | • Profiad o becynnau meddalwedd yn cynnwys Office 365, a'r gallu i ddysgu defnyddio meddalwedd newydd mewn modd hyderus<br>• Peth cymhwysedd sylfaenol mewn golygu fideo a sain (ar gyfer y cyfryngau cymdeithasol) a gwybodaeth o'r feddalwedd i wneud hyn<br>• Profiad o reoli sianeli a gwefannau'r cyfryngau cymdeithasol<br>• Y gallu i weithio i derfynau amser, weithiau dan bwysau | • Offer creu cynnwys megis Canva a/neu becynnau Adobe<br>• Dealltwriaeth o ddefnyddio offer digidol megis Rhyngwynebau gwefan CMS, e.e. Wordpress |
| Sgiliau a gwybodaeth | • Safon rhagorol o Saesneg llafar ac ysgrifenedig<br>• Diddordeb yn, a gwybodaeth o, faes cerddoriaeth glasurol a'r celfyddydau<br>• Y gallu i roi sylw i fanylion, yn enwedig wrth brawfddarllen | • Y gallu i siarad ac ysgrifennu Cymraeg<br>• Llygad da am ddylunio |
| Nodweddion personol | • Sgiliau trefnu da<br>• Sgiliau rhyngbersonol da – y gallu i ymgysylltu â phobl o wahanol oedrannau a chefndiroedd<br>• Parodrwydd i ddysgu sgiliau newydd drwy hyfforddiant ffurfiol a hyfforddiant-mewn-swydd<br>• Hyblygrwydd a pharodrwydd i weithio oriau ychwanegol (yn cynnwys min nos a phenwythnosau ar daith) pan fo angen | |

**Cyflog ac amodau**

Swydd ran amser, 3 diwrnod yr wythnos, ar gyflog o tua £12,300 y flwyddyn (yn seiliedig ar gyflog Cyfwerth ag Amser Llawn o £20,500 y flwyddyn).

Sefydliad bychan ydyn ni; rydym yn gweithredu amgylchedd gwaith hyblyg ac yn cynnig trefniant hybrid o weithio o gartref a gweithio o'n hybiau Hafan lleol yng Nghasnewydd, Bro Morgannwg ac Aberystwyth (lleoliad ein Hymgynghorydd Marchnata).

Bydd yr hawl i wyliau ar drefniant pro-rata, yn gyfwerth ag amser llawn o 20 diwrnod, ynghyd â gwyliau banc (8). Yn dibynnu ar yr amserlen ymarferion a pherfformiadau, bydd y rôl yn gofyn am weithio'n rheolaidd ar benwythnosau ac allan o oriau swyddfa, a threulio rhai cyfnodau byr oddi cartref. Nid yw'r cwmni'n talu am weithio goramser, ond mae'n cynnig amser rhydd yn lle hynny.

**Sut i ymgeisio**

Dylid anfon ceisiadau drwy ebost at caroline@sinfonia.cymru. Gofynnir i chi ddarparu CV, ynghyd â chais ysgrifenedig o ddim mwy na dwy dudalen ychwanegol yn mynegi eich diddordeb yn y rôl ac yn nodi beth, yn eich barn chi, y gallwch ei gyfrannu i Sinfonia Cymru. Gellir ysgrifennu'r cais yn Gymraeg neu yn Saesneg. Dylid cyflwyno'r cais llawn mewn ffeil PDF unigol.

**Y dyddiad cau ar gyfer ceisiadau yw canol dydd ar 6 Mawrth. Gwahoddir ymgeiswyr ar y rhestr fer i gyfweliad ar 13/14/15 Mawrth. Byddem yn dymuno i'r ymgeisydd llwyddiannus gychwyn cyn gynted ag y bo modd.**